Adroddiad i'r: Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod 24 Tachwedd 2021

Aelod Arweiniol / Swyddog Julian Thompson Hill

Awdur yr Adroddiad: Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo

Teitl Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2020/21

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i baratoi datganiad cyfrifon sy'n cydymffurfio â safonau cyfrifo a gymeradwyir. Mae'n rhaid i'r aelodau etholedig gymeradwyo'r cyfrifon a archwiliwyd yn ffurfiol ar ran y Cyngor.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar gyfer 2020/21, yn amodol ar archwiliad, gan y Pennaeth Cyllid ac Eiddo ar 2 Awst (15 Mehefin y llynedd). Cyflwynwyd y cyfrifon drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 22 Medi 2021 ac roeddent yn agored i'w harolygu'n gyhoeddus rhwng 2 Medi a 29 Medi. Dirprwywyd y cyfrifoldeb o gymeradwyo'r cyfrifon a archwiliwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh). Mae Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus (CIPFA) yn cynhyrchu Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol, yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol ac mae'r Cyngor wedi paratoi cyfrifon 2020/21 yn unol â'r Cod hwnnw.

Mae'r cyfrifon yn cynnwys barn gyfrifo a thystysgrif archwilio ddiamod. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn diweddaru'r Pwyllgor os bydd unrhyw faterion newydd i'w hadrodd.

.

3. Beth yw’r Argymhellion?

3.1 Nodi'r sefyllfa fel y'i cyflwynir yn y cyfrifon drafft (gweler Atodiad X).

4. Manylion yr adroddiad

Mae’r dyddiadau a nodir yn Adran 2 yn hwyrach na’r arfer a chyflwynwyd adroddiad yn esbonio’r rhesymau dros yr oedi i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf a chyflwynwyd diweddariad gyda'r cyfrifon drafft ym mis Medi. Gwelir crynodeb o’r sefyllfa isod.

Fel y llynedd cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau yn nodi, oherwydd effaith parhaus Covid, y byddai terfynau amser statudol ar gyfer cwblhau cyfrifon Drafft ac Archwiliwyd yn cael eu hymestyn fel nodwyd yn y tabl isod. Cymerodd CSDd y penderfyniad cynnar i gyhoeddi rhybudd i nodi na fyddwn yn anelu at y dyddiad cau cynnar statudol ond y byddai'n cyflawni’r dyddiadau cau diwygiedig. Cymerwyd y penderfyniad hwn mewn ymgynghoriad ag Archwilio Cymru ar sail eu hasesiad o’u gallu i gwblhau’r gwaith archwilio gofynnol. Fe wnaethom gydnabod y byddai hon yn flwyddyn heriol i bawb dan sylw i sicrhau bod yr holl wybodaeth ar gael ar amser.

Eitem	**Dyddiad Cau statudol**	**Dyddiad Cau estynedig**
Datganiad Cyfrifon Drafft	31 Mai 2021	31 Awst 2021
Datganiad Cyfrifon a Archwiliwyd	31 Gorffennaf 2021	30 Tachwedd 2021

Mae’n gadarnhaol iawn ein bod wedi llwyddo i gydweithio’n agos ag Archwilio Cymru a gwasanaethau eraill CSDd i gyrraedd sefyllfa lle gallwn gyflwyno set o gyfrifon terfynol yn y cyfarfod hwn. Fodd bynnag mae’n bwysig bod y pwyllgor yn deall effaith yr oedi ar y cyfrifon hynny a gwaith parhaus y tîm cyllid:

- Yn gyntaf mae’r oedi wedi golygu nad ydym wedi cael amser i gywiro cam-ddatganiadau arferol y byddai gennym – caiff y cywiriadau hynny eu gwneud ar gyfer cyfrifon y flwyddyn nesaf.

- Yn ail, mewn blwyddyn arferol, ym mis Medi byddai ffocws ac egni'r tîm Cyfalaf a Thechnegol yn troi at gynllunio cyfalaf strategol, gosod cyllideb, mynd i'r afael ag argymhellion Archwilio Mewnol a chynllunio ar gyfer prosesau cau cyfrifon y flwyddyn nesaf. Mae'r holl weithgareddau hyn wedi cael eu gohirio am 3 mis arall a bydd hynny'n cael effaith ar ddarpariaeth y gwasanaeth wrth fynd ymlaen.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae cyhoeddi Datganiad o Gyfrifon yn sail i stiwardiaeth a llywodraethu ariannol y Cyngor ac felly mae'n cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau'r Cyngor.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Barn broffesiynol y Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Mae gweithdrefnau a phrosesau y Cyngor sy'n sail i lunio'r cyfrifon yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan Archwilio Cymru. Caiff barn broffesiynol ei cheisio oddi wrth nifer o ddisgyblaethau eraill y tu hwnt i gyllid, fel yr adain gyfreithiol, prisio eiddo, adnoddau dynol a phensiynau.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r cyngor. Mae'n bwysig bod aelodau etholedig yn cael eu sicrhau bod y cyfrifon wedi cael eu cynhyrchu yn unol â'r safonau perthnasol a bod y broses sy'n sail i gynhyrchu'r cyfrifon yn gadarn. Er ei fod yn siomedig fod yr amserlen wedi llithro eleni mae'n bwysig nodi'r canlynol:

- Bydd y cyfrifon yn cael eu cadarnhau o fewn yr amserlen reoleiddio ddiwygiedig.
- Mae hefyd yn gadarnhaol nodi fod y Datganiad Cyfrifon sengl drafft wedi eu paratoi o fewn yr amserlenni gwreiddio
- Rydym wedi cytuno i ddod ag adroddiad i'r Pwyllgor yn gynnar yn 2022 i roi diweddariad ar y cynlluniau a'r cynnydd i ddychwelyd i'r dyddiadau terfynol cau cyfrifon cynnar statudol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Byddai'r Cyngor yn mynd yn groes i'w ddyletswydd statudol pe na fyddai'n gallu cymeradwyo'r cyfrifon erbyn 30 Tachwedd.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

O dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol. Mae Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Penodedig archwilio ac ardystio cyfrifon y cyngor, a rhaid iddo fod yn fodlon bod y cyfrifon wedi cael eu cwblhau yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2018.